PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI & GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU AILRADDIO

Adolygwyd	**Dyddiad**	**Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid**		**Dyddiad Adolygu**
1.	2022	Proses apelio cylch ailraddio interim 2022		Amherthnasol
2				
3.				
Swyddog Polisi		**Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol**	**Cymeradwywyd gan bwy a'r Dyddiad**	**Asesu Effaith Cydraddoldeb a'r dyddiad**
Louise Shipton		Tracy Hibbert		

Diben y Polisi

Gall unigolion sy'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau i gael eu hailraddio apelio yn erbyn y canlyniad, am rhesymau gweithdrefnol, a gofyn am adolygiad.

Cwmpas

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r holl staff a wnaeth gais am ailraddio a'u nod yw sicrhau y caiff pob aelod o'r staff y cyfle i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus os ystyriant y bu eu cais o dan anfantais oherwydd methiannau gweithdrefnol.

Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Pobl, sy'n adrodd i'r Grŵp Tasg Adnoddau Dynol a'r Bwrdd Gweithredol, yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ledled y Brifysgol.

Deoniaid y Colegau, Penaethiaid yr Ysgolion a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi yn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

Egwyddorion Craidd

- Caiff y staff sy'n gallu dangos y bu eu cais o dan anfantais, am resymau gweithdrefnol, apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol.
- Bydd y Brifysgol yn gweithredu proses benderfynu deg i ddatrys apeliadau'r staff.

GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU AIL RADDIO

1. AMSERLEN

Rhaid i unigolion sy'n gwneud cais am apêl gyflwyno eu hachos i'r Adnoddau Dynol erbyn 14 Ebrill 2023.

2. Y RHESYMAU DROS APELIO

Ni chaiff neb apelio onid ydynt yn credu:

- Na chafodd y weithdrefn y cytunwyd arni i ystyried ceisiadau am ail raddiadau ei gweithredu'n gywir.

3. Y WEITHDREFN YMGEISIO

Wrth wneud cais am adolygiad, rhaid i'r apelydd ddarparu datganiad sy'n amlygu'n glir y meysydd o'r gweithdrefnau ail raddiadau y cytunwyd arnynt nad ydynt yn credu y cawsant eu cymhwyso'n gywir i'w hachos, ynghyd â manylion ynghylch pam y credant fod hynny'n wir.

Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth newydd, heblaw am y rhesymau gweithdrefnol, fel rhan o'r apêl.

4. Y PANEL

Dylai'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Paneli fod mor agos at 50% gwrywaidd a 50% benywaidd ag sy'n rhesymol bosibl.

Bydd y Panel Apeliadau yn cael eu gwasanaethu gan Swyddog Adnoddau Dynol a chynorthwyir gan ddadansoddwr swyddi wedi ei hyfforddi. Fel arfer bydd y Panel yn cynnwys yr aelodau cymwys canlynol:

- Cadeirydd annibynnol (aelod lleyg o'r Cyngor, neu Gadeirydd arall y cytunir arno/arni)
- 1 cynrychiolydd priodol o'r Rheolwyr
- 1 cynrychiolydd o'r Undebau Llafur

Sylwer: Ni fydd y panel yn cynnwys unrhyw unigolion a fu'n aelodau o'r Panel Gwirio.

Ni fydd y Panel Apêl yn ceisio gwerthuso barn broffesiynol y Panel Gwirio ond bydd yn ystyried a gafodd y gweithdrefnau ail raddiadau y cytunwyd arnynt eu cymhwyso'n gywir.

Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir gan yr apelydd y tu hwnt i'r rhesymau gweithdrefnol.

5. HYSBYSU YNGHYLCH Y CANLYNIAD/ADBORTH

Bydd yr Adnoddau Dynol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr i'w hysbysu ynghylch canlyniad yr apêl.

Os caiff yr apêl ei chadarnhau caiff eich achos ei gyfeirio at y panel cychwynnol a fydd yn asesu effaith y rheswm dros y penderfyniad ynghylch y canlyniad ailraddio cychwynnol.

6. DIOGELU DATA

Cedwir yr holl bapurau ac adroddiadau cefndir ar apeliadau ailraddio yn ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, yn unol â'r Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol.

.

APELIADAU AIL RADDIO - SIART LLIF Y BROSES